



Cynulliad National
Cenedlaethol Assembly for
Cymru Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Penderfyniadau Cyfunol ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau

22 Medi 2010

CYFLWYNIAD

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys y rheolau sy'n weithredol mewn perthynas â chyflogau a lwfansau Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae Adran 20 (tudalennau 38 i 42) yn cynnwys y rheolau sy'n ymwneud â chymorth i grwpiau o dri neu fwy o Aelodau'r Cynulliad. Gwnaed y rheolau hyn gan Adran 18 o Benderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Aelodau'r Cynulliad a Swyddogion) (Cyflogau, Lwfansau etc.) 2006.

Mae Adrannau 1 i 19 (tudalennau 1 i 37) yn cynnwys y rheolau sy'n weddill, ac yn llunio Penderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Aelodau'r Cynulliad a Swyddogion) Cyflogau a Lwfansau (Rhif 2) 2010.

[Nodyn: Mae adrannau 1 i 19 isod yn llunio Penderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Aelodau'r Cynulliad a Swyddogion) Cyflogau a Lwfansau (Rhif 2) 2010.]

Rhan 1

Adran 1: Rhagarweiniad, egwyddorion, diffiniadau a darpariaethau	1
1.1 Rhagarweiniad	1
1.2 Egwyddorion	1
1.3 Diffiniadau	2
1.4 Lwfansau ar gyfer rhan o flwyddyn	2
1.5 Codiadau blynyddol	2
1.6 Talebau a derbynebaw	3
1.7 Cyflwyno ceisiadau'n brydlon	3
1.8 Pan fydd Aelod yn marw neu'n methu cymryd y llw oherwydd salwch	4
Adran 2: Cyflogau'r Aelodau	5
2.1 Swm sy'n daladwy	5
2.2 Cwnsler Cyffredinol nad yw'n Aelod Cynulliad	6
2.3 Talu cyflogau	6
Adran 3: Lwfans Costau Ychwanegol – ar gyfer costau aros oddi cartref dros nos	7
3.1 Diben a swm	7
3.2 Lwfans Costau Ychwanegol ar y Lefel Is - Aelodau'r Ardal Fewnol	7
3.3 Lwfans Costau Ychwanegol ar y Lefel Uwch - Aelodau'r Ardal Allanol	7
Adran 4: Costau Teithio Cyffredin yr Aelodau (yng Nghymru)	9
4.1 Rhagarweiniad	9
4.2 Egwyddorion cyffredinol	9
4.3 Teithiau cyffredin	10

4.4	Teithio mewn car	10
4.5	Cyfraddau fesul milltir	11
4.6	Costau dychwelyd car i'r prif gartref	11
4.7	Teithio mewn tacsi	11
4.8	Llogi car	11
4.9	Teithio ar y trêen	12
4.10	Teithio mewn awyren	12
Adran 5:	Teithiau estynedig	13
5.1	Rhagarweiniad	13
5.2	Symiau ac amodau	13
Adran 6:	Teithio ar fusnes pwyllgor	14
6.1	Rhagarweiniad	14
6.2	Egwyddorion cyffredinol	14
Adran 7:	Costau teithio partneriaid neu blant	15
7.1	Cyfyngu ar nifer y siwrneiau	15
7.2	Diffiniad o blentyn	15
7.3	Teithio mewn car	15
7.4	Taliad uniongyrchol i bartner neu blentyn	16
Adran 8:	Costau teithio staff yr Aelodau	17
8.1	Cyfyngu ar nifer y siwrneiau	17
8.2	Teithio mewn car	17
8.3	Taliadau uniongyrchol i staff	17
Adran 9:	Teithio i Sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd, ac ati	18
9.1	Yr hyn y gellir ei hawlio	18
9.2	Gwneud cais	18
9.3	Teithio i seneddau, cynghorau neu gynulliadau rhanbarthol	18

Adran 10: Lwfans Costau Swyddfa	20
10.1 Diben a swm	20
10.2 Costau swyddfa	20
10.3 Diogelwch swyddfeydd	21
10.4 Iechyd a diogelwch/Mynediad i bobl anabl	21
10.5 Trosglwyddo arian	22
10.6 Prydlesu, isbrydlesu a rhannu	22
Adran 11: Lwfans Cyflogau Staff	25
11.1 Diben a swm	25
11.2 Codiad cyflog	25
11.3 Costau eraill yn ymwneud â staff	26
11.4 Cytundebau cyflogaeth	26
11.5 Talu cyflogau	26
11.6 Trosglwyddo arian	27
11.7 Taliadau uniongyrchol i staff	27
Adran 12: Pensiynau a darpariaethau cysylltiedig ar gyfer staff yr Aelodau	28
12.1 Pensiwn	28
12.2 Yswiriant bywyd	28
12.3 Yswiriant salwch difrifol	28
Adran 13: Lwfans Staff Dros Dro	29
13.1 Diben	29
13.2 Hawlio'r Lwfans Staff Dros Dro	29
13.3 Cyfyngiadau	29
Adran 14: Taliadau diswyddo i staff Aelodau'r Cynulliad a delir o'r Lwfans Cyflogau Staff	31
14.1 Pan fydd Aelod yn peidio â bod yn Aelod Cynulliad	31

Adran 15: Lwfans Dirwyn i Ben	32
15.1 Diben a swm	32
15.2 Treuliau taladwy	32
Adran 16: Grant Adsefydlu	33
16.1 Grant Adsefydlu	33
16.2 Deiliaid swyddi	34
Adran 17: Grant Ymddeol oherwydd Salwch	35
17.1 Grant Ymddeol oherwydd Salwch	35
Adran 18: Lwfans Anabledd	36
18.1 Diben a swm	36
Adran 19: Galw'r Cynulliad neu bwyllgor yn ôl yn ystod y Toriad	37
19.1 Diben a swm	37

Rhan 2

Adran 20: Cymorth Ar Gyfer Grwpiau	38
20.1 Diben	38
20.2 Swm	39
20.3 Dewis 1	39
20.4 Dewis 2	40
20.5 Cymeradwyo'r gwariant	42

Rhan 1

Adran 1: Rhagarweiniad, egwyddorion, diffiniadau a darpariaethau

1.1 Rhagarweiniad

1.1.1 Mae'r rhan hon yn cynnwys Penderfyniad gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw hwn, o dan adrannau 20, 21 a 53 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ('y Ddeddf') a Rheol Sefydlog 1.7 a'r enw a roddir iddo yw Penderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Aelodau'r Cynulliad a Swyddogion) (Cyflogau a Lwfansau) (Rhif 2) 2010. Daw'r Penderfyniad hwn i rym ar 1 Medi 2010.

1.1.2 Mae'r Penderfyniad hwn yn disodli Penderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Rhif 2) (Aelodau'r Cynulliad a Swyddogion) (Cyflogau a Lwfansau) 2010.

1.2 Egwyddorion

1.2.1 Yr egwyddor ganolog y mae'r Penderfyniad yn seiliedig arni yw mai dim ond lwfansau a/neu dreuliau rhesymol sy'n codi'n anorfod mewn perthynas â'u gwaith y gall Aelodau'r Cynulliad eu hawlio.

1.2.2 Pan fydd Aelodau'n hawlio lwfansau a/neu dreuliau mewn perthynas â'u gwaith fel Aelodau'r Cynulliad, mae'n rhaid iddynt ddangos y dogfennau priodol a rhoi unrhyw eglurhad angenrheidiol i brofi eu bod wedi gwario'r swm y maent yn ei hawlio a'u bod wedi cymryd rhan yn y gweithgaredd dan sylw.

1.2.3 Gofynnir i Aelodau'r Cynulliad ddarllen y nodiadau canllaw a gyhoeddir o bryd i'w gilydd gan y Tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau. Nid oes unrhyw fwriad i'r nodiadau canllaw hyn effeithio ar gynnwys y Penderfyniad hwn. Yn hytrach, bydd y nodiadau'n cynorthwyo Aelodau'r Cynulliad i ddeall y Penderfyniad hwn.

1.2.4 Y Prif Weithredwr a'r Clerc fydd yn penderfynu a oes gan Aelod hawl i unrhyw un o'r lwfansau a nodir yn y Penderfyniad hwn os bydd unrhyw amheuaeth ynglŷn â hynny.

1.3 Diffiniadau

- 1.3.1 Oni bai bod y cyd-destun yn awgrymu'n wahanol, dyma ystyr y geiriau a'r ymadroddion a ganlyn.

Caerdydd	Unrhyw fan o fewn cylch pum milltir o gwmpas adeilad y Cynulliad Cenedlaethol ym Mae Caerdydd
Prif gartref	Y cartref a gofrestrwyd gan yr Aelod gyda'r Tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau.
Cyflog	Y cyfanswm crynswth sy'n daladwy i Aelod cyn didynnu unrhyw symiau. ee treth incwm a chyfraniadau Yswiriant Gwladol
Blwyddyn	Y 12 mis sy'n dod i ben ar 31 Mawrth
Staff	Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad - oni nodir yn wahanol

- 1.3.2 Bydd gan dermau eraill a ddefnyddir yr un ystyr ag a roddir iddynt yn y Ddeddf, neu yn Rheolau Sefydlog y Cynulliad.

- 1.3.3 Cyfeirio at Glerc y Cynulliad, fel y'i diffinnir yn adran 26 o'r Ddeddf, a wneir wrth gyfeirio at y Prif Weithredwr a'r Clerc.

1.4 Lwfansau ar gyfer rhan o flwyddyn

- 1.4.1 Mae'r lwfansau isod yn cael eu mynegi fel terfyn ariannol ar gyfer blwyddyn gyfan felly byddant yn gostwng pro rata os bydd Aelodau'n ymuno neu'n gadael y Cynulliad ar ganol blwyddyn. Yn gyffredinol, ni fydd gostyngiad yn y swm y caiff ei hawlio o fis i fis, ond mewn rhai achosion bydd yn rhaid ad-dalu lwfans os bydd Aelod yn gadael ar ganol blwyddyn ariannol, er enghraifft os yw Aelod wedi hawlio lwfans blwyddyn gyfan erbyn dechrau mis Rhagfyr ac yn gadael y Cynulliad ganol mis Rhagfyr.

- 1.4.2 Y lwfansau penodol yw'r Lwfansau Costau Ychwanegol, y Lwfans Costau Swyddfa a'r Lwfans Cyflogau Staff.

1.5 Codiadau blynyddol

- 1.5.1 Bydd y Lwfans Costau Ychwanegol, fel y'i diffinnir yn Adran 3 o'r Penderfyniad hwn, a'r Lwfans Costau Swyddfa, fel y'i diffinnir yn Adran 10 o'r Penderfyniad hwn, yn codi ar 1 Ebrill 2011, ac ar yr un dyddiad bob blwyddyn wedi hynny, yn unol â'r cynnydd dros y flwyddyn flaenorol ym Mynegai Prisiau Manwerthu'r DU ar gyfer y mis Rhagfyr blaenorol.

1.6 Talebau a derbynebau

- 1.6.1 Bydd Aelodau'r Cynulliad sydd am hawlio lwfans yn cyflwyno cais am daliad fel y nodir gan y Prif Weithredwr a'r Clerc. Gall y Prif Weithredwr a'r Clerc nodi amseroedd gwahanol i hawlio taliadau gwahanol a gwahanol ddulliau o wneud hynny.
- 1.6.2 Heb ragfarnu ar gynnwys cyffredinol paragraff 1.6.1 gall y Prif Weithredwr a'r Clerc nodi bod yn rhaid amgáu talebau a dogfennau eraill i ategu'r hawliad, fel y gwêl orau.
- 1.6.3 Ym mhob achos, dim ond anfoneb neu dderbynneb sydd yn enw Aelod perthnasol o'r Cynulliad neu aelod o'i staff y gellir ei chyflwyno. Ni cheir cyflwyno anfoneb neu dderbynneb sydd yn enw neb arall oni bai bod dogfennau dilys yn cael eu cyflwyno i brofi bod yr holl wariant yn gysylltiedig â'u gwaith fel Aelod Cynulliad, a dim arall.

1.7 Cyflwyno ceisiadau'n brydlon

- 1.7.1 Rhaid cyflwyno bob cais yn brydlon. Mae hyn yn arbennig o bwysig os oes angen gwneud taliad uniongyrchol i gyflenwr, fel y gellir gwneud y taliad i'r cyflenwr yn unol â pholisi'r Comisiwn. Mewn achosion eraill, rhaid cyflwyno ceisiadau cyn pen tri mis ar ôl diwedd y mis y mae'r gwariant yn berthnasol iddo (yn amodol ar gyfyngiadau amser arbennig y gellir eu rhoi ar waith ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, sy'n galw am gyfnod byrrach (gweler paragraff 1.7.2)). Wrth gyflwyno cais am lwfans ar ôl y cyfnod hwn, rhaid egluro pam y bu oedi. Gellir gwrthod caniatáu ceisiadau sy'n cael eu cyflwyno'n hwyr (ar ôl y cyfnod o dri mis) os nad oes rheswm digonol. Y Tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau fydd yn asesu pa mor ddigonol yw'r rhesymau dros geisiadau hwyr, a gall y Tîm gyfeirio achosion lle y mae amheuaeth, neu lle y mae materion newydd neu ddadleuol yn codi, i'r Prif Weithredwr a'r Clerc a fydd yn penderfynu yn eu cylch.
- 1.7.2 Bydd Aelodau'n cael gwybod am gyfyngiadau amser arbennig ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol i alluogi'r Comisiwn i gydymffurfio â'r gofynion ar gyfer cwblhau ac archwilio'r cyfrifon blyneddol. Mae'n bosibl y caiff ceisiadau na chyflwynir yn unol â'r cyfyngiadau amser hyn eu gwrthod neu y bydd yn rhaid eu talu o'r lwfansau ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol, gan ddibynnu'n llwyr ar ddisgresiwn y Prif Weithredwr a'r Clerc.

1.8 Pan fydd Aelod yn marw neu'n methu cymryd y llw oherwydd salwch

- 1.8.1 Os bydd Aelod yn peidio â bod yn Aelod mewn etholiad cyffredin o dan adrannau 3 a 14 o'r Ddeddf, ac yn marw wedi iddo gael ei ailethol yn yr etholiad hwnnw neu'n methu cymryd y llw sy'n ofynnol o dan adran 23 o'r Ddeddf oherwydd salwch, bydd Lwfans Dirwyn i Ben ar gael o dan y telerau a nodir yn adran 15 o'r Penderfyniad hwn.

Adran 2: Cyflogau'r Aelodau

2.1 Swm sy'n daladwy

- 2.1.1 Y cyflog sy'n daladwy i Aelodau fydd £53,852 ynghyd â chyflog deiliad swydd ychwanegol os yw'r Aelod yn ymgymryd ag un o'r swyddi a restrir ym mharagraff 2.1.3. Ni fydd cyflog Aelod yn daladwy nes bydd wedi tyngu llw neu wedi rhoi'r cadarnhad sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith yn unol ag adran 23 o'r Ddeddf.
- 2.1.2 Bydd gostyngiad o swm sy'n cyfateb i ddwy ran o dair o'r cyflog sylfaenol y mae gan Aelod Cynulliad hawl iddo os yw'r Aelod hefyd yn Aelod Seneddol neu'n Aelodau o Senedd Ewrop, yn unol ag adran 21 o'r Ddeddf.
- 2.1.3 Bydd gan Aelodau¹ sydd yn dal unrhyw un o'r swyddi a ganlyn hawl i gael cyflog ychwanegol fel a ganlyn:

Swydd	Cyflog Deiliad Swydd Ychwanegol
Rhan 1	
Y Prif Weinidog	£80,870
Y Dirprwy Brif Weinidog/Gweinidog Cymru/Y Cwnsler Cyffredinol/Y Llywydd/Arweinydd y blaid fwyaf nad oes ganddi swyddogaeth weithredol	£41,949
Dirprwy Weinidog/Y Dirprwy Lywydd/Prif Chwip y Llywodraeth	£26,385
Arweinyddion pleidiau nad oes ganddynt swyddogaeth weithredol (heblaw am arweinydd y blaid fwyaf)	£12,168
Rhan 2	
Comisiynwyr y Cynulliad/Prif Chwip yr Wrthblaid	£12,168
Cadeiryddion y pwyllgorau a ganlyn:	£12,168

¹ Yn unol â'r Ddeddf, bydd rhai lwfansau ar gyfer y rheini sy'n dal y swyddi yn parhau i gael eu talu yn ystod y cyfnod diddymu, ac ar ôl hynny, er bod tymor yr Aelodau yn y swyddi wedi dod i ben oherwydd y diddymu. At ddibenion hawliau o dan y rhan hon o'r Penderfyniad, dylai'r diffiniad o 'Aelod' gynnwys y rheini sy'n parhau yn y swydd, er nad ydynt bellach yn Aelod oherwydd y diddymu.

<p>Pwyllgorau Craffu a sefydlwyd o dan Reol Sefydlog 12, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a sefydlwyd o dan Reol Sefydlog 13, y Pwyllgor Cyllid a sefydlwyd o dan Reol Sefydlog 14, y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a sefydlwyd o dan Reol Sefydlog 15 a phwyllgorau a sefydlwyd o dan Reol Sefydlog 21 i drafod cynigion deddfwriaethol y bydd y Pwyllgor Busnes yn eu cyfeirio atynt.</p>	
<p>Cadeiryddion y pwyllgorau a ganlyn: Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, y Pwyllgor Cyfle Cyfartal, y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol, y Pwyllgor Deisebau, y Pwyllgor Safonau Ymddygiad a'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth.</p>	<p>£8,112</p>

2.1.4 Os oes gan Aelod fwy nag un o'r swyddi a nodir ym mharagraff 2.1.3 caiff gyflog deiliad swydd ychwanegol ar gyfer dim ond un o'r swyddi hyn, sef y swydd uchaf neu, yn ôl fel y bo'n digwydd, y swydd sydd â'r cyflog uchaf.

2.2 Cwnsler Cyffredinol nad yw'n Aelod Cynulliad

2.2.1 Caiff Cwnsler Cyffredinol a benodwyd o dan adran 49 o'r Ddeddf, ond nad yw'n Aelod Cynulliad, gyflog sy'n cyfateb i gyfanswm y cyflog sy'n daladwy o dan baragraffau 2.1.1 i 2.1.3 i Gwnsler Cyffredinol sy'n Aelod Cynulliad.

2.3 Talu cyflogau

2.3.1 Caiff cyflogau eu talu bob mis fel ôl-daliad ar ddiwrnod gwaith olaf y mis. Bydd y taliadau'n cael eu gwneud yn uniongyrchol i gyfrif yr Aelod drwy system drosglwyddo electronig (System Glirio Awtomataidd y Bancwyr - BACS).

Adran 3: Lwfans Costau Ychwanegol – ar gyfer costau aros oddi cartref dros nos

3.1 Diben a swm

- 3.1.1 Mae'r Lwfans Costau Ychwanegol yn ad-dalu costau pan fydd yn rhaid i Aelodau aros oddi cartref dros nos er mwyn cyflawni'u dyletswyddau fel Aelodau.
- 3.1.2 Mae'r Lwfans Costau Ychwanegol i'w gael ar ddwy lefel (sef y Lefel Uwch a'r Lefel Is), yn ôl lleoliad prif gartref yr Aelod.

3.2 Lwfans Costau Ychwanegol ar y Lefel Is - Aelodau'r Ardal Fewnol

- 3.2.1 Yn amodol ar ddarpariaethau'r adran hon, caiff Aelodau sydd â'u prif gartref yn un o'r etholaethau canlynol hawlio'r Lwfans Costau Ychwanegol ar y Lefel Is.

Caerffili	Canol Caerdydd	Gogledd Caerdydd
De Caerdydd a Phenarth	Gorllewin Caerdydd	Dwyrain Casnewydd
Gorllewin Casnewydd	Pontypridd	Bro Morgannwg

- 3.2.2 Caiff Aelodau sy'n gymwys i gael y Lwfans Costau Ychwanegol ar y Lefel Is hawlio hyd at £4,234 yn ystod y flwyddyn sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2010.
- 3.2.3 Mae'r Lwfans Costau Ychwanegol ar y Lefel Is yn daladwy mewn perthynas â chost aros oddi cartref dros nos.
- #### **3.3 Lwfans Costau Ychwanegol ar y Lefel Uwch - Aelodau'r Ardal Allanol**
- 3.3.1 Yn amodol ar ddarpariaethau'r adran hon, caiff Aelodau nad yw eu prif gartref yn un o'r etholaethau a restrir ym mharagraff 3.2.1 hawlio Lwfans Costau Ychwanegol ar y Lefel Uwch.
- 3.3.2 Os oedd Aelod yn byw mewn eiddo yr oedd Lwfans ar y Lefel Uwch yn daladwy mewn perthynas ag ef ar 1 Ebrill 2007, caiff barhau i hawlio'r Lwfans ar y Lefel Uwch hyd yn oed os nad yw'r eiddo'n gymwys oherwydd newidiadau yn y ffiniau etholaethol, cyhyd ag y bo'r Aelod yn parhau i fyw yn yr eiddo hwnnw.
- 3.3.3 Caiff Aelodau sy'n gymwys i gael y Lwfans Costau Ychwanegol ar y Lefel Uwch hawlio hyd at £13,430 yn ystod y flwyddyn yn dechrau ar 1 Ebrill 2010.

- 3.3.4 Mae'r Lwfans Costau Ychwanegol ar y Lefel Uwch yn daladwy mewn perthynas â chostau aros oddi cartref dros nos. Fe'i telir hefyd i helpu â chostau'r Aelod i gael ail gartref yng Nghaerdydd gan gynnwys eitemau megis llog morgais a rhent. Cyn prynu unrhyw eitemau unigol sy'n costio mwy na £2,000 dylid cysylltu â'r Tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau i ofyn am gymeradwyaeth.
- 3.3.5 Rhaid i Aelodau sy'n hawlio ad-daliad ar y llog ar forgais ail gartref gyflwyno datganiad o'r llog a dalwyd, o leiaf unwaith bob 12 mis, er mwyn ystyried unrhyw newidiadau mewn cyfraddau llog.
- 3.3.6 Caiff Aelodau hawlio ad-daliad ar gyfer biliau cyfleustodau, y Dreth Gyngor, band eang, yswiriant a thrwydded deledu ar gyfer ail gartref. Ni chânt hawlio ar gyfer dodrefn a gosodiadau.

Adran 4: Costau Teithio Cyffredin yr Aelodau (yng Nghymru)

4.1 Rhagarweiniad

4.1.1 Mae'r Adran hon yn ymdrin â siwrneiau Aelodau'r Cynulliad sy'n teithio yng Nghymru ar fusnes y Cynulliad (sef 'teithiau cyffredin'). Dylai Aelodau sy'n teithio ar fusnes y Cynulliad yn rhannau eraill o'r DU neu mewn mannau eraill, gydymffurfio nid yn unig â rheolau'r adran hon ond hefyd â'r rheolau a nodir yn adrannau 5 a 9.

4.1.2 Yn amodol ar ddarpariaethau paragraffau 4.2.1, 4.2.2, 4.2.3 a 4.4.2 caiff Aelodau deithio ar y ffyrdd, ar drên, mewn awyren neu ar y môr ar gyfer y siwrneiau a nodir ym mharagraff 4.1.3 ar draul y cyhoedd os yw'r siwrnai'n angenrheidiol yng nghyswllt eu swyddogaethau fel Aelodau'r Cynulliad a, thrwy hynny, yn bodloni un o'r meini prawf a ganlyn:

- mae'r daith yn ymwneud yn benodol â'r Cynulliad
- mae'r daith yn ymwneud â mater sydd gerbron y Cynulliad ar y pryd, neu gerbron un o'r Pwyllgorau y mae'r Aelod yn ei wasanaethu;
- mae'r berthnasol i etholwr, neu'n ymwneud â mater sydd o ddiddordeb cyffredinol i'r etholaeth neu'r rhanbarth.

4.1.3 Caiff Aelod hawlio costau teithio ar gyfer unrhyw siwrnai os nad yw'n cael ad-daliad am yr un siwrnai o ffynhonnell arall, hyd yn oed os yw'n teithio at ddibenion gwaith y Cynulliad a sefydliadau eraill.

4.1.4 Er bod paragraffau 4.2.1, 4.2.2, 4.2.3 a 4.4.2 isod yn cyfeirio at 'Aelodau', mae'r egwyddorion cyffredinol a nodir yn y paragraffau hynny hefyd yn gymwys i siwrnai staff Aelodau (yn unol ag adran 8) ac mae'r egwyddorion a nodir ym mharagraffau 4.2.1, 4.2.2 a 4.2.3 hefyd yn gymwys i siwrneiau partneriaid neu blant Aelodau (yn unol ag adran 7).

4.2 Egwyddorion cyffredinol

4.2.1 Disgwylir i'r Aelodau deithio gan ddefnyddio'r dull rhataf, gan ystyried union gost y daith a chostau aros dros nos. Fodd bynnag, gellir ystyried hefyd yr amser a dreulir ar y daith, ac os gellir profi bod manteision i siwrnai sy'n arbed amser, o dan amgylchiadau eithriadol, mae'n bosibl y bydd

modd hawlio ad-daliad am siwrnai ddrutach. Bydd swm priodol yn cael ei dynnu oddi ar hawliad Aelod nad yw, ym marn y Prif Weithredwr a'r Clerc, wedi teithio gan ddefnyddio'r dull rhataf.

4.2.2 Disgwylir i Aelodau chwilio am y tocyn teithio rhataf bosibl ar gyfer y siwrnai, y dull rhataf o deithio a'r dosbarth rhataf, gan ystyried unrhyw ostyngiadau sydd ar gael. Hefyd, os oes gan Aelodau gardiau rheilffordd i bobl hŷ n neu os gallant gael consesiynau eraill, dylent eu defnyddio.

4.2.3 Dylai Aelodau gofio am Gynllun Teithio'r Cynulliad a baratowyd i annog Aelodau'r Cynulliad, eu staff a staff Comisiwn y Cynulliad i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus, beiciau neu drafnidiaeth gymunedol i deithio rhwng y cartref a'r gwaith ac ar fusnes.

4.3 Teithiau cyffredin

4.3.1 Yn amodol ar baragraff 4.2.1, 4.2.2, 4.2.3 a 4.4.2 mae gan Aelodau hawl i deithio ar draul y Cynulliad tra byddant yn teithio yng nghyswllt eu swyddogaethau fel Aelodau'r Cynulliad, gan ddilyn llwybr rhesymol.

4.3.2 Caiff Aelodau hefyd hawlio costau am deithio rhwng eu cartref, y Cynulliad a swyddfeydd lleol.

4.3.3 Ni chaiff Aelodau wneud cais am ad-daliad am unrhyw daliadau parcio a godir gan Gomisiwn y Cynulliad ar gyfer darparu cyfleusterau parcio yn Nhŷ Hywel, neu gerllaw.

4.4 Teithio mewn car

4.4.1 Yn amodol ar baragraff 4.2.1 a 4.2.3 caiff Aelodau deithio mewn car ar siwrnai arferol mewn car a hawlio lwfans fesul milltir ar sail yr union filltiroedd a deithiodd.

4.4.2 Cyn cychwyn ar daith ar y ffordd, yn amodol ar baragraff 4.4.1, dylai Aelod ystyried a oes modd rhannu car ag Aelod arall, aelod o staff neu aelod o staff Comisiwn y Cynulliad a/neu dylai ystyried defnyddio unrhyw gynllun rhannu car allanol y mae'r Cynulliad yn aelod cofrestredig ohono, er mwyn teithio yn y modd mwyaf cynaliadwy bosibl. Mae arweiniad llawn ar gynlluniau rhannu car cyfredol ar gael gan y Tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau.

4.5 Cyfraddau fesul milltir

4.5.1 Telir y cyfraddau fesul milltir a gymeradwyir gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi i'r rhai sy'n teithio mewn car, beic modur neu feic.

4.5.2 Os yw Aelod yn rhannu siwrnai ag Aelod arall, aelod o staff (p'un a'i aelod o'i staff ei hun ynteu aelod o staff Aelod arall) neu aelod o staff Comisiwn y Cynulliad, a hynny yn ei gerbyd neu ei cherbyd ei hun ar fusnes swyddogol, yn amodol ar baragraffau 4.1.1 a 4.1.3, caiff hawlio tâl ychwanegol am bob milltir y byddant yn cyd-deithio, yn unol â'r cyfraddau fesul milltir a gymeradwyir gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Cewch ragor o wybodaeth os ewch i:

<http://www.hmrc.gov.uk/payee/rates-thresholds.htm#6>

4.6 Costau dychwelyd car i'r prif gartref

4.6.1 Os yw Aelodau'n defnyddio cerbyd ar gyfer teithio o'u prif gartref i'r orsaf reilffordd neu'r maes awyr agosaf, gellir hawlio costau'r daith adref os oes angen dychwelyd y cerbyd i'r prif gartref. Yn yr un modd, os yw Aelodau'n cael eu gyrru i'w hetholaeth neu'u rhanbarth o'u prif gartref, ac yn teithio wedyn i Gaerdydd ar drafndiaeth gyhoeddus, telir costau teithio'r sawl sy'n dychwelyd adref ar ôl ei hebrwng.

4.7 Teithio mewn tacsi

4.7.1 Yn amodol ar Adrannau 4.2.1, 4.2.3, 4.4.2, 4.7.2 a 4.7.3 os yw Aelodau'n teithio mewn tacsi wrth ymgymryd â'u swyddogaethau fel Aelodau'r Cynulliad, cânt wneud cais am ad-daliad ar yr amod nad yw'n fwy na'r Lwfans Fesul Milltir ar y raddfa uwch a nodir ym mharagraff 4.5.1.

4.7.2 Os nad oedd yn ymarferol i'r Aelod ddefnyddio unrhyw drafndiaeth ar wahân i dacsï, caiff hawlio gwir gost y siwrnai.

4.7.3 Mewn unrhyw achos, yr uchafswm y gall Aelod ei hawlio fel ad-daliad o dan y lwfans hwn, yw gwir gost y siwrnai.

4.8 Llogi car

4.8.1 Yn amodol ar baragraff 4.2.1, 4.2.3.a 4.4.2 dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y caiff y gost o logi car ei ad-dalu, a hynny os cafwyd cymeradwyaeth y Tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau ymlaen llaw. Os ceir cymeradwyaeth i wneud hynny, gall yr Aelod hawlio gwir gost llogi'r car.

4.9 Teithio ar y trê

- 4.9.1 Yn amodol ar baragraff 4.2.1, 4.2.2 a 4.2.3 caiff Aelod sy'n talu o'i boced ei hun i deithio mewn trê hawlio union gostau'r tocyn. Caiff Aelodau'r Cynulliad deithio ar docyn Dosbarth Cyntaf neu Ddosbarth Safonol, gan ddibynnu ar yr hyn sy'n well ganddynt ac ar y tocynnau sydd ar gael.

4.10 Teithio mewn awyren

- 4.10.1 Yn amodol amodol ar baragraff 4.2.1 a 4.2.2 caiff Aelod hawlio'r gost o deithio mewn awyren sy'n rhan o wasanaeth rheolaidd ar gyfer taith gyffredin. Caiff Aelod hawlio'r gost o deithio mewn awyren breifat neu awyren siarter fel rhan o'r trefniadau teithio arferol, hyd at uchafswm y gost o wneud yr un daith mewn awyren sy'n rhan o wasanaeth rheolaidd.

Adran 5: Teithiau estynedig

5.1 Rhagarweiniad

5.1.1 Yn ogystal â threfniadau 'teithiau cyffredin' (Adran 4) gall Aelodau deithio ar draul y cyhoedd i fannau eraill yn y DU yng nghyswllt eu gwaith fel Aelodau'r Cynulliad a hynny o dan 'lwfans teithiau estynedig'. Er mwyn bod yn gymwys rhaid i'r daith gydymffurfio ag un o'r gofynion canlynol:

- mae'r daith yn ymwneud yn benodol â'r Cynulliad;
- mae'r daith yn ymwneud â mater sydd gerbron y Cynulliad ar y pryd, neu gerbron un o'r Pwyllgorau y mae'r Aelod yn ei wasanaethu;
- mae'n berthnasol i etholwr, neu'n ymwneud â mater o ddiddordeb cyffredinol i'r etholaeth neu'r rhanbarth.

5.1.2 Caiff Aelod hawlio lwfans teithio estynedig ar gyfer unrhyw siwrnai os nad yw'n cael ad-daliad am yr un siwrnai o ffynhonnell arall, hyd yn oed os yw'n teithio at ddibenion gwaith y Cynulliad a sefydliad arall. Cyn i'r Aelod allu hawlio'r lwfans teithio ychwanegol hwn, mae'n rhaid i'r Tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau gytuno ar y daith ymlaen llaw. Y Prif Weithredwr a'r Clerc fydd yn penderfynu ar unrhyw deithiau na roddodd y Tîm sêl ei fendith iddynt.

5.2 Symiau ac amodau

5.2.1 Bydd swm y lwfansau a'r egwyddorion cyffredinol a'r amodau cysylltiedig a nodir yn adran 4 yn gymwys i deithiau estynedig.

Adran 6: Teithio ar fusnes pwyllgor

6.1 Rhagarweiniad

- 6.1.1 Mae'r adran hon yn delio â siwrneiau Aelodau'r Cynulliad tra maent yn ymgymryd â busnes pwyllgor.
- 6.1.2 Pan fyddant yn teithio ar fusnes pwyllgor, rhaid i'r Aelodau gadw at y rheolau a'r egwyddorion sydd wedi'u gosod allan yn adran 4. Er bod adran 4 yn gymwys i siwrneiau Aelodau pan fyddant yn teithio ar fusnes pwyllgor yng Nghymru, mae'r un rheolau'n gymwys os byddant yn teithio i rywle oddi allan i Gymru.

6.2 Egwyddorion cyffredinol

- 6.2.1 Caiff Aelodau deithio ar draul y cyhoedd mewn perthynas â'u gwaith fel Aelodau pwyllgor yng Nghymru, i rywle arall yn y DU neu dramor, os nad yw'r gwariant yn cael ei ad-dalu o ffynhonnell arall.
- 6.2.2 Caiff Aelodau hawlio ad-daliad o'r gost o deithio ar fusnes pwyllgor os yw'r pwyllgor wedi cytuno ymlaen llaw iddynt ymgymryd â'r gweithgaredd dan sylw. Os oes modd, dylai'r tîm clericio neu'r Tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau sicrhau bod y daith yn cadw at yr egwyddorion cyffredinol yn y cyswllt hwn (fel y rhai yn adran 4.2). Er enghraifft, i fanteisio ar unrhyw ostyngiadau sydd ar gael wrth archebu tocynnau i grŵp o bobl.
- 6.2.3 Y Prif Weithredwr a'r Clerc fydd yn penderfynu a ellir hawlio am deithio ar fusnes pwyllgor os na chytunir ar y daith honno'n unol â pharagraff 6.2.1 uchod.
- 6.2.4 Ni fydd y milltiroedd a gaiff eu teithio mewn perthynas â busnes pwyllgor yn cyfrif yn erbyn y terfynau a bennir gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi fel yr uchafswm y gellir ei eithrio rhag treth.

Adran 7: Costau teithio partneriaid neu blant

7.1 Cyfyngu ar nifer y siwrneiau

- 7.1.1 Yn amodol ar baragraffau 4.2.1, 4.2.2 a 4.2.3, os bydd partner neu unrhyw blentyn (dan ddeunaw oed) Aelod Cynulliad yn teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus rhwng Caerdydd a'i etholaeth, neu ei ranbarth, neu rhwng Caerdydd a phrif gartref yr Aelod, gellir hawlio cost y siwrnai honno. Nid oes rhaid i'r Aelod deithio gyda'r teulu. Er hynny, ni all Aelod hawlio cost mwy na 12 siwrnai sengl o'r fath y flwyddyn ar gyfer ei deulu.
- 7.1.2 At ddibenion y lwfans hwn, diffinnir partner fel a ganlyn:
- priod cyfreithlon;
 - Partner Sifil fel y'i diffinnir yn y Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004;
 - person o'r naill ryw neu'r llall sy'n cyd-fyw â'r Aelod ac a enwebwyd yn bartner i'r Aelod at ddibenion y Tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau.
- 7.1.3 Mae taith ddwyffordd yn cyfrif fel dwy daith sengl.

7.2 Diffiniad o blentyn

- 7.2.1 Mae plentyn, at ddibenion y lwfans hwn, yn cynnwys llysblentyn, plentyn wedi'i fabwysiadu, plentyn maeth, neu unrhyw blentyn arall sy'n byw fel un o deulu'r Aelod ac sydd dan ddeunaw oed.

7.3 Teithio mewn car

- 7.3.1 Caiff partner yr Aelod ac unrhyw blant dan ddeunaw oed deithio mewn car yn hytrach na thrafnidiaeth gyhoeddus rhwng Caerdydd a'r etholaeth, neu rhwng Caerdydd a phrif gartref yr Aelod. Mewn achosion o'r fath, caiff yr Aelod hawlio'r gyfradd briodol fesul milltir. Dylid hawlio costau teithio partner yr Aelod mewn car ar wahân i hawliad yr Aelod ei hun. Telir yr un cyfraddau fesul milltir ag a delir i'r Aelodau. Bydd unrhyw daith o'r fath yn cyfrif fel un o'r 12 taith sengl a ganiateir mewn blwyddyn. Ni chaiff partner na phlentyn hawlio costau teithio os yw wedi teithio yn yr un car.

7.4 Taliad uniongyrchol i bartner neu blentyn

- 7.4.1 Caiff Aelodau ofyn i'r Tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau dalu unrhyw swm a hawliwyd o dan y lwfans hwn yn uniongyrchol i'r partner neu'r plentyn dan sylw.

Adran 8: Costau teithio staff yr Aelodau

8.1 Cyfyngu ar nifer y siwrneiau

8.1.1 Yn amodol ar baragraffau 4.2.1, 4.2.2 a 4.2.3 a 4.4.2 caiff pob Aelod hawlio costau 18 taith ddwyffordd ar gyfer eu staff bob blwyddyn os ydynt yn teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus rhwng Caerdydd a'r etholaeth neu'r rhanbarth. At y diben hwn, mae staff yn golygu'r rhai a gyflogir ar ran yr Aelod o'r Lwfans Cyflogau Staff, cyllid i grwpiau neu'r Lwfans Staff Dros Dro.

8.2 Teithio mewn car

8.2.1 Yn amodol ar baragraffau 4.2.1, 4.2. 2 a 4.2.3 a 4.4.2 os bydd Aelod yn teithio mewn car rhwng Caerdydd a'r etholaeth neu'r rhanbarth, caiff yr Aelod hawlio cost y siwrneiau hynny. Telir y cyfraddau perthnasol a gymeradwyir gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Bydd y siwrneiau hyn yn cael eu cyfrif fel rhan o'r cyfanswm o 18 taith ddwyffordd a ganiateir mewn blwyddyn.

8.3 Taliadau uniongyrchol i staff

8.3.1 Caiff Aelodau ofyn i'r Tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau dalu unrhyw swm a hawliwyd o dan y lwfans hwn yn uniongyrchol i'r aelod o staff dan sylw.

Adran 9: Teithio i Sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd, ac ati

9.1 Yr hyn y gellir ei hawlio

- 9.1.1 Mewn unrhyw flwyddyn ariannol, caiff Aelod Cynulliad hawlio ad-daliad am hyd at bedair taith ddwyffordd rhwng Cymru ac unrhyw aelod-wladwriaeth neu ranbarth arall yn yr Undeb Ewropeaidd ar fusnes yn gysylltiedig â'r Cynulliad.
- 9.1.2 Rhaid i brif bwrpas y daith fod yn gysylltiedig â'i swyddogaethau fel Aelod Cynulliad.
- 9.1.3 Yn amodol ar baragraffau 4.2.1 a 4.2.2 caiff Aelod hawlio union gostau'r daith a hawlio lwfans cynhaliaeth hyd at yr uchafsymiau a ganlyn:
- cost y tocyn awyren dwyffordd rhataf a mwyaf addas sydd ar gael i un o'r cyrchfannau a nodir yn adran 9.1.1; a
 - chynhaliaeth am ddwy noson gyda phrydau bwyd ac unrhyw siwrneiau ychwanegol.
- 9.1.4 Caiff Aelod nad yw'n teithio mewn awyren hawlio'r union gostau teithio hyd at yr uchafswm a bennir ym mharagraff 9.1.3 uchod.

9.2 Gwneud cais

- 9.2.1 Cyn teithio, mae'n rhaid i Aelodau gyflwyno datganiad i'r Tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau ymlaen llaw yn nodi diben yr ymweliad, lleoliad a hyd yr ymweliad, a'r bobl neu'r cyrff y bwriedir cwrdd â nhw. Cyn y caiff yr Aelod hawlio'r lwfans teithio, mae'n rhaid i'r Tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau gytuno i'r daith ymlaen llaw. Y Prif Weithredwr a'r Clerc fydd yn penderfynu a ddylid talu costau unrhyw daith na roddodd y Tîm sêl ei fendith iddi.

9.3 Teithio i seneddau, cynghorau neu gynulliadau rhanbarthol

- 9.3.1 Caiff Aelod ofyn am ganiatâd y Prif Weithredwr a'r Clerc i ffurfio dirprwyaeth i ymweld â senedd, cyngor neu gynulliad rhanbarthol yn yr Undeb Ewropeaidd. Rhaid i'r cais ddangos manteision tebygol yr ymweliad i waith Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a nodi'n glir y bobl neu'r sefydliadau y byddant yn ymweld â nhw. Bydd ymweliad o'r fath yn cyfateb

i ymweliad y gellid, fel arall, fod wedi'i wneud o dan baragraff 9.1.1.

Adran 10: Lwfans Costau Swyddfa

10.1 Diben a swm

- 10.1.1 Caiff Aelodau hawlio Lwfans Costau Swyddfa mewn perthynas ag unrhyw gostau rhesymol yng nghyswllt rhedeg swyddfa ac ymwneud ag etholwyr. Rhaid anfon derbynebaw neu brawf o unrhyw wariant gydag unrhyw gais.
- 10.1.2 Ni chaiff Aelodau hawlio Lwfans Costau Swyddfa am ddefnyddio'u cartref fel swyddfa etholaethol neu ranbarthol.
- 10.1.3 Yn amodol ar baragraffau 10.1.2 a 11.6.1, yr uchafswm y gall yr Aelodau ei hawlio fel Lwfans Costau Swyddfa yw £15,498 yn ystod y flwyddyn yn dechrau 1 Ebrill 2010.

10.2 Costau swyddfa

- 10.2.1 Nid oes modd darparu rhestr gynhwysfawr o'r holl eitemau a ganiateir. Ond, gall yr enghreifftiau a ganlyn helpu'r Aelodau i benderfynu a allant gyflwyno cais ai peidio:
- costau cynnal swyddfa yn etholaeth neu ranbarth yr Aelod (gan gynnwys rhent, yswiriant, y dreth gyngor neu ardrethi busnes, biliau trydan, nwy, dŵr a ffôn, a chostau darparu cyfarpar swyddfa);
 - costau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â phrydlesu neu rentu'r swyddfa;
 - costau prisio mewn perthynas â phrydlesu, rhentu neu rannu'r swyddfa;
 - costau'n ymwneud â diogelwch y swyddfa;
 - cost llogi neu rentu ystafelloedd yn etholaeth neu ranbarth yr Aelod ar gyfer cynnal cymorthfeydd;
 - costau hysbysebu'r cymorthfeydd;
 - papurau newydd a chylchgronau;
 - biliau ffonau symudol;
 - ffioedd cyfrifwyr sy'n gysylltiedig â chost dodrefnu a chynnal y swyddfa;
 - deunyddiau swyddfa nad ydynt ar gael yn uniongyrchol gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru;
 - cyflogau a chostau eraill yn ymwneud â staff glanhau a gyflogir yn uniongyrchol, nad ymdrinnir â nhw mewn unrhyw fan arall.

- 10.2.2 Rhaid cofnodi eitemau unigol o gyfarpar swyddfa sy'n costio £50 neu ragor ar restr eiddo a gedwir gan y Tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau. Dylid dychwelyd yr holl eitemau ar y rhestr eiddo at Gomisiwn y Cynulliad pan fydd yr Aelod Cynulliad yn gadael ei swydd oni bai bod cytundeb rhyngddo neu rhyngddi â'r Tîm Cymorth Busnes yr Aelodau i wneud fel arall.
- 10.2.3 Bydd angen i swyddfa'r Tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau gymeradwyo ceisiadau ar gyfer eitemau unigol o ddodrefn neu eitemau unigol eraill sy'n costio mwy na £750, a hynny cyn iddynt gael eu prynu
- 10.2.4 Ni ellir hawlio costau ad-dalu morgais, na'r llog arno, o dan y lwfans hwn.
- 10.2.5 Rhaid i'r anfonebau ar gyfer rhent y swyddfa gynnwys cyfeiriad yr adeilad sy'n cael ei rentu.
- 10.3 Diogelwch swyddfeydd**
- 10.3.1 Bydd swm ychwanegol ar gael i ariannu unrhyw wariant o fwy na £1,000 gan Aelod mewn unrhyw flwyddyn ariannol ar y camau y mae Aelodau'n bwriadu'u cymryd i ddiogelu'u hunain, eu staff, eu swyddfa etholaethol neu ranbarthol neu'u hoffer swyddfa os yw'r heddlu'n argymhell eu bod yn gwneud hynny. Rhaid i'r argymhellion hynny fod yn ysgrifenedig a rhaid i Aelodau gyflwyno'r argymhellion ac o leiaf tri dyfynbris cystadleuol ar gyfer y gwaith dan sylw, gan wneud hynny cyn mynd ati i wneud y gwaith.
- 10.4 Iechyd a diogelwch/Mynediad i bobl anabl**
- 10.4.1 Bydd swm ychwanegol ar gael i ariannu unrhyw wariant gan Aelod o fwy na £1,000 mewn unrhyw flwyddyn ariannol yng nghyswllt iechyd a diogelwch, diogelwch tân neu addasiadau i'w gwneud yn haws mynd i mewn ac allan o'u hadeiladau, os yw'r Aelodau'n bwriadu cymryd y camau hynny ar sail argymhellion gan berson cymwys. Bydd yr argymhellion hynny wedi'u cymeradwyo gan y Prif Weithredwr a'r Clerc ac fe'u disgrifir mewn canllawiau a gyhoeddwyd gan y Tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau. Rhaid i'r argymhellion hynny fod yn ysgrifenedig a rhaid i'r Aelodau gyflwyno'r argymhellion ac o leiaf tri dyfynbris cystadleuol am gost y gwaith dan sylw cyn mynd ati i wneud y gwaith.

10.4.2 Ni fydd angen i unrhyw Aelod ddefnyddio mwy na £1,000 o'i Lwfans Costau Swyddfa yng nghyswllt paragraffau 10.3.1 a 10.4.1 yn ystod yr un flwyddyn ariannol.

10.5 Trosglwyddo arian

10.5.1 Caniateir i Aelod drosglwyddo hyd at 25 y cant o'i Lwfans Costau Swyddfa i'w Lwfans Cyflogau Staff ychwanegol (fel y'i diffinnir ym mharagraff 11.3.1) ar ôl hysbysu'r Tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau yn ysgrifenedig ymlaen llaw. Yn yr un modd, gall Aelod drosglwyddo arian o'i Lwfans Cyflogau Staff i'r Lwfans Grŵp Plaid, ac i'r gwrthwyneb, ar ôl hysbysu'r Tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau yn ysgrifenedig ymlaen llaw.

10.6 Prydlesu, isbrydlesu a rhannu

[Sylwch: Nid yw paragraffau 10.6.1 i 10.6.4 yn gymwys os yw'r cytundeb neu'r trefniant yn weithredol ers cyn 1 Ebrill 2010.]

10.6.1 Ni chaiff Aelod sy'n rhentu swyddfa gan sefydliad sy'n gysylltiedig â phlaidd wleidyddol neu undeb llafur hawlio ad-daliad o gostau rhentu'r swyddfa honno o'r Lwfans Costau Swyddfa oni bai:

- (a) bod yr Aelod wedi hysbysu'r Tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau o'r bwriad i wneud hynny, cyn cytuno i rentu'r swyddfa;
- (b) bod prisiwr a enwebwyd gan y Tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau wedi dweud wrth y Tîm nad yw'r rhent arfaethedig yn fwy na'r hyn sy'n rhesymol; a
- (c) bod y Tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau wedi cael copi o'r cytundeb dan sylw.

10.6.2 Ni chaiff Aelod sy'n rhentu rhan o swyddfa i sefydliad sy'n gysylltiedig â phlaidd wleidyddol neu undeb llafur (neu gorff neu fusnes arall) hawlio ad-daliad o gostau rhentu'r swyddfa honno o'r Lwfans Costau Swyddfa oni bai:

- (a) bod yr Aelod wedi hysbysu'r Tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau o'r bwriad i wneud hynny, cyn cytuno i rentu'r rhan honno o'r swyddfa;
- (b) bod prisiwr a enwebwyd gan y Tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau wedi dweud wrth y Tîm nad yw'r rhent arfaethedig yn llai na'r hyn sy'n rhesymol; a
- (c) bod y Tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau wedi cael copi o'r cytundeb dan sylw.

10.6.3

- (a) Os yw prisiwr wedi rhoi cyngor ynglŷn â rhent o dan baragraff 10.6.1(b) ni chaiff Aelod hawlio Lwfans Costau Swyddfa mewn perthynas ag unrhyw gynnydd yn y rhent hwnnw oni bai bod Tîm Cymorth yr Aelodau wedi cael gwybod am y cynnydd a'u bod yn fodlon na fydd y cynnydd yn golygu y bydd y rhent yn fwy na'r hyn sy'n rhesymol.
- (b) Os yw prisiwr wedi rhoi cyngor ynglŷn â rhent o dan baragraff 10.6.1(b), ni chaiff Aelod ostwng y rhent hwnnw os yw'n dal yn hawlio Lwfans Costau Swyddfa mewn perthynas â'r swyddfa, oni bai bod Tîm Cymorth yr Aelodau wedi cael gwybod am y gostyngiad a'u bod yn fodlon na fydd y gostyngiad yn golygu y bydd y rhent yn llai na'r hyn sy'n rhesymol.
- (c) Er mwyn ystyried cynnydd neu ostyngiad mewn rhent o dan is-baragraff (a) neu (b), caiff y Tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau ofyn am farn prisiwr a enwebir ganddynt.

10.6.4 Caiff Aelod hawlio'r gost o gael cyngor gan brisiwr at ddibenion paragraff 10.6.1(b), 10.6.2(b) neu 10.6.3(c) fel rhan o'i Lwfans Costau Swyddfa.

10.6.5 Ni chaiff Aelod sy'n bwriadu dod i gytundeb i rannu swyddfa ag Aelod Seneddol neu Aelod o Senedd Ewrop hawlio Lwfans Costau Swyddfa mewn perthynas â rhent y swyddfa honno oni bai:

- (a) bod yr Aelod wedi hysbysu'r Tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau o'r bwriad i wneud hynny, cyn cytuno i rannu'r swyddfa;
- (b) bod y Tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau wedi cael copi o'r cytundeb drafft, sy'n gosod allan telerau'r cytundeb arfaethedig, gan gynnwys y rheini sy'n berthnasol i drefniadau rhannu costau'r swyddfa ; a
- (c) bod y Tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau wedi cymeradwyo'r trefniadau arfaethedig.

10.6.6 Os yw Aelod yn bwriadu newid unrhyw drefniant a wneir o dan baragraff 10.6.5 rhaid iddo neu iddi hysbysu'r Tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau o hynny os yw'n hawlio Lwfans Costau Swyddfa mewn perthynas â'r swyddfa honno, ac ni chaiff roi'r newidiadau ar waith heb gymeradwyaeth.

- 10.6.7 Os yw Aelod yn hawlio Lwfans Costau Swyddfa mewn perthynas â rhent swyddfa:
- (a) y mae'n ei rhannu ag Aelod Seneddol neu Aelod o Senedd Ewrop; neu
 - (b) y mae rhan ohoni'n cael ei rhentu gan berson arall; caiff hawlio Lwfans Costau Swyddfa dim ond mewn perthynas â rhent net y swyddfa, hy y gwahaniaeth rhwng y swm y mae'r Aelod yn ei dalu i rentu'r swyddfa a'r swm y mae'r Aelod yn ei gael fel cyfraniad tuag at y rhent neu fel rhent ar gyfer rhan o'r swyddfa, yn ôl y digwydd.
- 10.6.8 Os yw Aelod yn rhentu rhan o'i swyddfa i sefydliad yn ymwneud â phlaid wleidyddol (ac yn hawlio Lwfans Costau Swyddfa mewn perthynas â'r swyddfa honno), mae'n rhaid iddi neu iddo ofalu nad oes unrhyw ran arall o'r swyddfa'n cael ei defnyddio at ddibenion plaid wleidyddol, gan gynnwys ymgyrchu ar gyfer etholiad.

Adran 11: Lwfans Cyflogau Staff

11.1 Diben a swm

- 11.1.1 Caiff Aelodau hawlio Lwfans Cyflogau Staff i dalu costau cyflogi pobl i wneud gwaith gweinyddu, clericio neu waith ysgrifenyddol neu i wneud gwaith ymchwil, lle mae'r holl gostau hynny'n codi'n anorfod oherwydd eu gwaith fel Aelodau'r Cynulliad, a dim arall.
- 11.1.2 Caiff Aelod Cynulliad hawlio lwfans i dalu costau cyflogau a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyflogwr cysylltiedig, hyd at dri o staff cyfwerth ag amser llawn. Ni chaiff mwy nag un aelod o staff cyfwerth ag amser llawn ddod o Fand 1 fel y diffinnir isod. Ni chaiff mwy nag un aelod o staff cyfwerth ag amser llawn ddod o Fand 2 a rhaid i'r gweddill ddod o Fand 3.

Band	Swyddi generig enghreifftiol
1	Rheolwr Swyddfa
2	Uwch Ysgrifennydd Uwch Weithiwr Achos Cynorthwy-ydd Ymchwil Swyddog y Wasg
3	Gweithiwr Achos Ysgrifennydd Iau

- 11.1.3 Dyma'r graddfeydd cyflog cyfwerth ag amser llawn ar gyfer y swyddi hyn:

BAND	Pwynt 1	Pwynt 2	Pwynt 3	Pwynt 4	Pwynt 5
1	£21,548	£23,529	£25,692	£28,054	£30,635
2	£18,325	£20,210	£22,290	£24,583	£27,113
3	£16,542	£17,865	£19,291	£20,832	£22,496

- 11.1.4 Caiff y graddfeydd hyn eu huwchraddio ar 1 Ebrill 2011 ac ar yr un dyddiad bob blwyddyn yn unol â'r cynnydd yn y Mynegai Enillion Cyfartalog ar gyfer y mis Rhagfyr blaenorol.

11.2 Codiad cyflog

- 11.2.1 Bydd cyflogau aelodau unigol o'r staff a benodwyd cyn 1 Ebrill 2005 yn codi fesul pwynt ar 1 Ebrill bob blwyddyn nes y

byddant yn cyrraedd pen uchaf y raddfa, yn amodol ar berfformiad boddhaol. Bydd staff a benodwyd ar ôl 1 Ebrill 2005 yn symud drwy'r raddfa gyflogau fesul pwynt bob blwyddyn, ar y dyddiad y cawsant eu penodi, nes iddynt gyrraedd pen uchaf y raddfa, yn amodol ar berfformiad boddhaol.

- 11.2.2 Bydd cyflog unrhyw aelod unigol o'r staff yn cael ei ddiogelu os oedd ei gyflog yn uwch na'r cyflog uchaf ar y raddfa ar 1 Ebrill 2005, nes y bydd hwnnw'n codi'n uwch na'r cyflog sy'n daladwy. Bryd hynny, bydd yn cael y cyflog uchaf ar y raddfa.
- 11.2.3 Bydd staff newydd yn dechrau ar waelod y band cyflog priodol oni bai bod rhesymau da i gyfiawnhau cyflog dechreuol uwch. Gofynnir i Aelodau gyflwyno achos busnes dros hynny i'r Tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau a sicrhau bod y cyflog uwch wedi'i gymeradwyo cyn ei gynnig i'r aelod newydd o staff. Y Prif Weithredwr a'r Clerc fydd yn penderfynu'n derfynol ar unrhyw anghydfod.
- 11.2.4 Yn amodol ar berfformiad boddhaol, caiff staff newydd gynydd yn eu cyflog ar ddyddiad eu penodiad bob blwyddyn.

11.3 Costau eraill yn ymwneud â staff

- 11.3.1 Yn amodol ar Adran 11.5.1, gall Aelod hawlio swm ychwanegol o'r Lwfans Cyflogau Staff hyd at £5,882 yn ystod y flwyddyn yn dechrau 1 Ebrill 2010 i dalu costau goramser, hyfforddiant, teithio, taliadau bonws etc. (gan gynnwys Cyfraniadau Yswiriant Gwladol y Cyflogwr mewn perthynas â'r taliadau hyn). Bydd y swm hwn yn cael ei adolygu'n unol â'r cynnydd yn y Mynegai Enillion Cyfartalog ar gyfer y mis Rhagfyr blaenorol.

11.4 Cytundebau cyflogaeth

- 11.4.1 Mae'n rhaid i Aelodau roi datganiad ysgrifenedig i holl aelodau'i staff yn nodi prif delerau ac amodau eu cyflogaeth, gan roi copi i swyddfa'r Tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau ymhen mis ar ôl iddynt ddechrau yn eu swydd.

11.5 Talu cyflogau

- 11.5.1 Telir cyflogau'r staff bob mis ar ddiwrnod gwaith olaf y mis. Bydd y taliadau yn cael eu gwneud yn uniongyrchol i gyfrif yr unigolyn drwy drosglwyddiad electronig (System Glirio Awtomataidd y Bancwyr - BACS).

11.6 Trosglwyddo arian

- 11.6.1 Caniateir i Aelodau drosglwyddo hyd at 25 y cant o'r Lwfans Cyflogau Staff ychwanegol, fel y'i diffinnir yn 11.3.1, i'w Lwfans Costau Swyddfa, ar yr amod eu bod yn hysbysu'r Tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau'n ysgrifenedig ymlaen llaw.

11.7 Taliadau uniongyrchol i staff

- 11.7.1 Caiff Aelodau ofyn i'r Tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau dalu unrhyw swm a hawliwyd o dan adran 11.3 yn uniongyrchol i'r aelod o staff dan sylw.
- 11.7.2 Yr uchafswm y caiff Aelodau ei dalu fel bonws i staff y maent yn eu cyflogi yw 15 y cant o'u cyflog crynswth yn ystod y flwyddyn ariannol berthnasol. At ddibenion y paragraff hwn, y cyflog crynswth yw'r cyflog crynswth sy'n daladwy i staff cyn ystyried unrhyw drefniant aberthu cyflog sy'n weithredol.

Adran 12: Pensiynau a darpariaethau cysylltiedig ar gyfer staff yr Aelodau

12.1 Pensiwn

- 12.1.1 Caiff Aelodau hawlio lwfans ar gyfer costau'u cyfraniadau nhw at gynllun pensiwn personol unrhyw aelod o staff a delir o'r:
- (a) Lwfans Costau Staff;
 - (b) cyllid ar gyfer grwpiau; neu
 - (c) Lwfans Costau Swyddfa mewn perthynas â staff glanhau a gyflogir yn uniongyrchol.
- 12.1.2 Yr uchafswm a delir yw 10 y cant o'r cyflog a delir i'r unigolyn hwnnw. Nid yw'r lwfans hwn yn cymryd lle Lwfans Cyflogau Staff, y cyllid ar gyfer grwpiau na'r Lwfans Costau Swyddfa.

12.2 Yswiriant bywyd

- 12.2.1 Caiff Aelodau hawlio lwfans mewn perthynas â chostau'u cyfraniadau nhw at unrhyw bolisi yswiriant bywyd a awdurdodwyd gan Gomisiwn y Cynulliad ar gyfer staff a delir o'r:
- (a) Lwfans Costau Staff;
 - (b) cyllid ar gyfer grwpiau; neu
 - (c) Lwfans Costau Swyddfa mewn perthynas â staff glanhau a gyflogir yn uniongyrchol.

12.3 Yswiriant salwch difrifol

- 12.3.1 Caiff Aelodau hawlio lwfans mewn perthynas â chostau'u cyfraniadau nhw at unrhyw bolisi yswiriant salwch difrifol a awdurdodwyd gan Gomisiwn y Cynulliad ar gyfer staff a delir o'r:
- (a) Lwfans Costau Staff;
 - (b) cyllid ar gyfer grwpiau; neu
 - (c) Lwfans Costau Swyddfa mewn perthynas â staff glanhau a gyflogir yn uniongyrchol.

Adran 13: Lwfans Staff Dros Dro

13.1 Diben

13.1.1 Caiff Aelodau hawlio Lwfans Staff Dros Dro i dalu unrhyw gostau ychwanegol i sicrhau cymorth ysgrifenyddol neu gymorth ymchwil os yw'r sawl sy'n cael ei gyflogi o dan y Lwfans Cyflogau Staff yn methu rhoi'r cymorth hwnnw oherwydd salwch, absenoldeb mamolaeth neu absenoldeb mabwysiadu, ond rhaid i'r costau hynny fod wedi codi'n anorfod o'u dyletswyddau fel Aelodau Cynulliad, a dim arall.

13.2 Hawlio'r Lwfans Staff Dros Dro

13.2.1 Gellir hawlio Lwfans Staff Dros Dro os yw'r person sy'n arfer gwneud y gwaith:

- yn absennol o'r gwaith oherwydd salwch neu absenoldeb mamolaeth, ac yn dal i gael ei dalu gan yr Aelod trwy'r Lwfans Cyflogau Staff;
- yn cael ei gyflogi'n barhaol;
- os yw'n sâl, yn absennol am fwy na phythefnos;
- yn cyflwyno tystysgrifau meddygol ar gyfer salwch neu dystysgrif mamolaeth (ffurflen MATB1) sy'n nodi'r wythnos y disgwylir iddi roi genedigaeth neu, yn achos absenoldeb tadolaeth neu absenoldeb mabwysiadu, yn cyflwyno tystysgrif gyfatebol;
- yn meddu ar gytundeb cyflogaeth dilys sy'n nodi'r cyfnodau o absenoldeb salwch, mamolaeth ac absenoldeb mabwysiadu a ganiateir â chyflog.

13.3 Cyfyngiadau

13.3.1 Bydd uchafswm y Lwfans Staff Dros Dro y gellir ei hawlio yn seiliedig ar gyflog crynswth yr aelod o staff sy'n absennol dros gyfnod penodol (gweler isod).

13.3.2 Yn unol ag arferion cyflogi da, anogir yr Aelodau i ofalu bod gan yr holl staff dros dro drefniadau pensiwn.

13.3.3 Ymdrinnir ag absenoldebau salwch, mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu yn gwbl ar wahân wrth gyfrif Lwfans Staff Dros Dro. Felly, os bu un o'r staff yn absennol ar gyfnod mamolaeth neu salwch (nad oedd yn gysylltiedig â'r beichiogrwydd) caiff Aelodau fanteisio ar ddwy gyllideb wahanol ar gyfer y Lwfans Staff Dros Dro.

- 13.3.4 Pan fydd unigolyn yn absennol oherwydd salwch, bydd uchafswm y lwfans sydd ar gael yn seiliedig ar chwe mis o dâl llawn a chwe mis ar hanner cyflog (gan gynnwys cyfraniadau'r cyflogwr at yr Yswiriant Gwladol a chostau pensiwn) pob aelod o staff absennol cymwys.
- 13.3.5 Os bydd unigolyn yn absennol am fwy na phythefnos, yn unol â'r rheol ym mharagraff 13.2.1, bydd y Lwfans Staff Dros Dro yn cael ei ôl dalu gan ddechrau ar ddiwrnod cyntaf yr absenoldeb.
- 13.3.6 Pan fydd unigolyn ar absenoldeb mamolaeth neu absenoldeb mabwysiadu, bydd uchafswm y lwfans sydd ar gael yn cyfateb i 26 wythnos o gyflog llawn yr unigolyn (gan gynnwys cyfraniadau'r cyflogwr at yr Yswiriant Gwladol a chostau pensiwn).
- 13.3.7 Pan wneir cais am gymorth dros dro oherwydd salwch ar gyfer y cyfnod hwyaf a ganiateir o dan y trefniadau newydd, gellir hawlio ar gyfer unrhyw estyniad i'r cymorth o'r Lwfans Cyflogau Staff. Bydd y cyflogai parhaol wedi cyrraedd yr uchafswm y gall ei hawlio'n ôl ei gytundeb ac ni fydd costau'r staff dros dro felly yn ychwanegol at y cyflogau arferol.
- 13.3.8 Os ceir cais arall am gymorth, a hynny'n gysylltiedig ag aelod o staff sydd wedi bod yn absennol am 12 mis â chyflog, bydd y cais hwnnw'n cael ei dderbyn cyn belled â bod cyfnod o 12 mis ers y cais diwethaf.

Adran 14: Taliadau diswyddo i staff Aelodau'r Cynulliad a delir o'r Lwfans Cyflogau Staff

14.1 Pan fydd Aelod yn peidio â bod yn Aelod Cynulliad

- 14.1.1 Caiff yr Aelod hawlio cost taliadau diswyddo i staff cymwys os yw'r Aelod yn rhoi'r gorau i fod yn Aelod o'r Cynulliad am ryw reswm. I fod yn gymwys, mae'n rhaid i staff fod ag o leiaf dwy flynedd o wasanaeth gyda'r Aelod ar y dyddiad y maent yn rhoi'r gorau i weithio i'r cyn Aelod, a heb fod yn hunangyflogedig. Cyfrifir taliadau diswyddo yn unol â'r ddeddfwriaeth gyflogi gyfredol. Yr uchafswm y gellir ei hawlio o dan y lwfans hwn yw swm y tâl diswyddo sy'n daladwy wedi diswyddiad statudol.

Adran 15: Lwfans Dirwyn i Ben

15.1 Diben a swm

- 15.1.1 Caiff y rhai sy'n rhoi'r gorau i fod yn Aelodau Cynulliad, am unrhyw reswm, hawlio lwfans ar gyfer costau gwaith a wneir ar eu rhan wedi iddynt roi'r gorau i fod yn Aelod, yn ogystal ag unrhyw fân wariant cysylltiedig. Caiff cyn Aelod wneud cais am y lwfans dim ond os yw'n hanfodol gwneud y gwaith er mwyn cwblhau'r hyn a oedd ar y gweill pan roddodd gorau i fod yn Aelod. Yr uchafswm y gellir ei hawlio yw un rhan o dair o gyfanswm y Lwfans Costau Swyddfa, yr elfen Costau Staff eraill o'r Lwfans Cyflogau Staff (fel y'i diffinnir yn 11.3.1) sy'n weithredol ar y pryd, a'r gwir gyflogau a dalwyd i staff a gyflogwyd gan y cyn Aelod ar y diwrnod y gadawodd y Cynulliad, er mwyn talu costau unrhyw waith yr oedd yn angenrheidiol ei gwblhau at ddibenion busnes y Cynulliad a wnaed ar ran Aelod sydd wedi marw, sydd wedi colli'i sedd neu sydd wedi ymddeol, yn dilyn ei ddiwrnod olaf fel Aelod o'r Cynulliad ynghyd ag unrhyw fân wariant cysylltiedig. Bydd yr uchafswm sy'n daladwy o dan y lwfans hwn yn gostwng yn ôl faint o'r Lwfans Costau Ychwanegol, Lwfans Costau Swyddfa a Lwfans Staff a ordalwyd oherwydd y rheolau pro rata a ddisgrifir yn adran 1.4.1 o'r Penderfyniad hwn.
- 15.1.2 Yn achos Aelod sydd wedi marw, telir y lwfans hwn i'r rheini y cyfeirir yn briodol atynt fel cynrychiolwyr personol yr Aelod ymadawedig.

15.2 Treuliau taladwy

- 15.2.1 Gellir talu treuliau ar gyfer y canlynol os oeddynt yn rhan anorfod o'r broses dirwyn i ben, a dim arall:
- cyflogau a chyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr ar gyfer staff sy'n parhau i gael eu cyflogi ynghyd â chyfraniadau pensiwn cysylltiedig;
 - rhwymedigaethau contract y staff;
 - rhwymedigaethau cytundebol i logi offer neu i brynu neu brydlesu swyddfeydd;
 - post, deunydd swyddfa a chostau ffôn;
 - costau teithio.
- 15.2.2 Nid yw'r taliadau diswyddo o dan Adran 14 yn cael eu cynnwys yn y lwfans hwn.

Adran 16: Grant Adsefydlu

16.1 Grant Adsefydlu

- 16.1.1 Caiff unrhyw un sy'n Aelod Cynulliad yn union cyn etholiad cyffredin y Cynulliad ac:
- nad yw'n ymgeisydd yn yr etholiad; neu
 - os yw'n ymgeisydd, nad yw'n cael ei ethol;
- hawlio Grant Adsefydlu.
- 16.1.2 Yn y paragraff blaenorol, mae 'ymgeisydd yn yr etholiad' yn cynnwys person ar restr ymgeiswyr plaid wleidyddol gofrestredig; ac mae 'cael ei ethol' yn cynnwys person sydd wedi ei ethol ar gyfer rhanbarth etholiadol y Cynulliad.
- 16.1.3 Mynegir y grant fel canran o'r cyflog blynyddol (ar y gyfradd sy'n daladwy i'r Aelodau yn union cyn yr etholiad) ac fe'i pennir yn ôl oedran yr Aelod (ar ddyddiad yr etholiad) a hyd ei wasanaeth fel Aelod o'r Cynulliad cyn yr etholiad. Bydd Grant Adsefydlu Aelodau Cynulliad sydd hefyd yn Aelodau Seneddol neu'n Aelodau Senedd Ewrop, sy'n derbyn dim ond traean o'u cyflog yn unol â pharagraff 2.1.2 yn y Penderfyniad hwn, yn cael ei bennu ar sail eu cyflog llawn.
- 16.1.4 Dangosir y canrannau perthnasol yn y Tabl isod.

CANRANNAU'R CYFLOG BLYNYDDOL

Nifer y blynyddoedd o wasanaeth (blynyddoedd wedi eu cwblhau)

Oedran	O dan 10	10	11	12	13	14	15 a throsodd
O dan 50	50	50	50	50	50	50	50
50	50	50	52	54	56	58	60
51	50	52	55	58	62	65	68
52	50	54	58	63	67	72	76
53	50	56	62	67	73	78	84
54	50	58	65	72	78	85	92
55 i 64	50	60	68	76	84	92	100
65	50	58	65	72	78	85	92
66	50	56	62	67	73	78	84
67	50	54	58	63	67	72	76

68	50	52	55	58	62	65	68
69	50	50	52	54	56	58	60
70 a throsodd	50	50	50	50	50	50	50

- 16.1.5 Wrth gyfrif nifer y blynyddoedd o wasanaeth, ni chyfrifir unrhyw gyfnod fel Aelod fwy nag unwaith; caiff unrhyw gyfnod o wasanaeth a ddiystyrwyd wrth gyfrif grant adsefydlu blaenorol ei ddiystyru y tro hwn hefyd. Hefyd, caiff ffracsiwn o flwyddyn ei ddiystyru, os nad yw Aelod a etholwyd mewn etholiad cyffredin yn cwblhau blwyddyn gyfan am fod yr etholiad cyffredin nesaf yn cael ei gynnal cyn diwedd yr un flwyddyn. Mewn achos o'r fath, dylid cymryd bod yr Aelod wedi gwasanaethu am flwyddyn lawn.

16.2 Deiliaid swyddi

- 16.2.1 Bydd gan Aelodau'r Cynulliad sydd wedi dal un o'r swyddi a nodir ym mharagraff 2.1.3 ar unrhyw adeg yn ystod eu cyfnod o wasanaeth (gweler paragraff 16.1.5) hawl i dderbyn taliad ychwanegol drwy gyfrwng Grant Adsefydlu. Bydd y taliad gyfwerth â swm y cyflog a dalwyd i ddeiliad y swydd honno yn y tri mis cyn iddynt roi'r gorau i'r swydd. Os yw'r Aelod wedi dal mwy nag un swydd yn ystod y cyfnod hwnnw, seilir y taliad ar gyfradd y cyflog uchaf.

Adran 17: Grant Ymddeol oherwydd Salwch

17.1 Grant Ymddeol oherwydd Salwch

- 17.1.1 Mae gan Aelodau sydd â salwch sy'n eu rhwystro rhag parhau i fod yn Aelodau Cynulliad yr hawl i wneud cais am Grant Ymddeol oherwydd Salwch pan fyddant yn rhoi'r gorau i fod yn Aelod. Bydd lefel y grant sy'n daladwy yn cael ei phennu yn yr un modd â'r Grant Adsefydlu o dan Adran 16, ond y dyddiad allweddol yw'r dyddiad y mae'r Aelod yn rhoi'r gorau i fod yn Aelod Cynulliad, yn hytrach na dyddiad yr etholiad cyffredin.
- 17.1.2 Ni fydd gan Aelod o'r Cynulliad sy'n hawlio Grant Ymddeol oherwydd Salwch yr hawl i wneud cais am Grant Adsefydlu pan gynhelir yr etholiad cyffredin nesaf.

Adran 18: Lwfans Anabledd

18.1 Diben a swm

- 18.1.1 Bydd Lwfans Anabledd ar gael i Aelodau y mae angen adnoddau ychwanegol arnynt, oherwydd eu hanabledd, i ymgymryd â'u cyfrifoldebau fel Aelodau.
- 18.1.2 Bydd swm y lwfans sy'n daladwy yn cael ei bennu ar sail asesiad o natur a maint yr anabledd a'r adnoddau ychwanegol y mae eu hangen ar yr Aelod hwnnw i'w alluogi i ymgymryd â'i ddyletswyddau. Bydd angen i'r Aelod a'r Prif Weithredwr a'r Clerc gytuno ar yr asesiad a'r broses o bennu'r swm sy'n daladwy, ond os na cheir cytundeb, y Prif Weithredwr a'r Clerc fydd yn penderfynu ar y mater.
- 18.1.3 At ddibenion y lwfans hwn bydd gan 'anabledd' yr un ystyr â'r hyn a geir yn Neddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995.

Adran 19: Galw'r Cynulliad neu bwyllgor yn ôl yn ystod y Toriad

19.1 Diben a swm

- 19.1.1 Gall Aelodau hawlio unrhyw gostau teithio os bu'n rhaid iddynt dalu i deithio i fod yn bresennol mewn cyfarfod llawn o'r Cynulliad a alwyd er mwyn ystyried mater brys sydd o bwys cyhoeddus yn unol â Rheol Sefydlog 7.3.
- 19.1.2 Gall Aelodau hawlio unrhyw gostau teithio os bu'n rhaid iddynt dalu i deithio i fod yn bresennol mewn cyfarfod o Bwyllgor y Cynulliad yn unol â Rheol Sefydlog 10.41.
- 19.1.3 Bydd darpariaethau Adran 4, ac eithrio paragraffau 4.1.2 a 4.10.1, yn berthnasol yn yr achosion hyn. Os bydd yn teithio mewn awyren, telir cost tocyn unffordd dosbarth busnes. Telir cost llety os bu'n rhaid i Aelod aros dros nos wrth deithio i'r Cynulliad. Caiff Aelodau hawlio'r gost o ddychwelyd i'w cyrchfan wyliau os bydd.

Rhan 2

Adran 20: Cymorth Ar Gyfer Grwpiau

Nodyn: Mae'r rheolau ynglŷn â'r lwfansau sydd ar gael i gynorthwyo grwpiau o dri neu fwy o Aelodau'r Cynulliad wedi'u nodi yn adran 18 o Benderfyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Aelodau'r Cynulliad a Swyddogion) (Cyflogau, Lwfansau etc.) 2006 ('Penderfyniad 2006'). Mae'r testun o'r rhan honno o Benderfyniad 2006 i'w weld isod ym mharagraffau 20.1 i 20.5.

Dylid nodi y dylid darllen y cyfeiriadau at 'y Swyddfa Ffioedd' yn y dyfyniad o Benderfyniad 2006 isod fel cyfeiriadau at 'y Tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau'.

20.1 Diben

- 20.1.1 Mae gan grwpiau o 3 neu fwy o Aelodau yr hawl i lwfans i'w cynorthwyo â'u gwaith yn y Cynulliad. Rhoddir y lwfans i dalu am gostau angenrheidiol a ysgwyddwyd yn llwyr ganddynt hwy a chan neb arall, er mwyn medru cyflawni eu dyletswyddau.
- 20.1.2 Nid oes modd darparu rhestr gynhwysfawr o'r eitemau a ganiateir. Ond, gall yr enghreifftiau canlynol fod o gymorth i'r Aelodau benderfynu a allant gyflwyno cais ai peidio:
- cyflogi staff i wneud gwaith gweinyddu, clericio neu waith ysgrifenyddol,
 - cyflogi staff i wneud gwaith ymchwil;
 - prynu offer swyddfa.
- 20.1.3 Os dymunir prynu eitemau unigol o ddodrefn neu eitemau unigol eraill sy'n costio mwy na £2,000, dylid gofyn am gymeradwyaeth y Swyddfa Ffioedd ymlaen.
- 20.1.4 Ni ellir hawlio costau ad-dalu morgais, na'r llog arno, o dan y lwfans hwn.
- 20.1.5 Mae gofyn i Aelodau roi datganiad ysgrifenedig i holl aelodau eu staff yn nodi prif delerau ac amodau eu cyflogaeth, gan roi copi i'r Swyddfa Ffioedd ymhen mis.

20.2 Swm

20.2.1 Ar gyfer y flwyddyn yn dechrau 1 Ebrill 2006 a'r blynyddoedd dilynol, gall grwpiau plaid ddewis i'w lwfans gael ei gyfrifo yn unol ag un o'r dulliau a ganlyn.

20.3 Dewis 1

20.3.1 Dyma swm y cyllid ar gyfer y flwyddyn yn dechrau 1 Ebrill 2006:

(a) bydd gan bob grŵp yr hawl i swm (y swm sylfaenol) na fydd yn fwy na £100,650;

(b) bydd pob grŵp nad yw'n cael ei gynrychioli gan Aelod yn y Cabinet yn derbyn, ar ben y swm sylfaenol, swm ychwanegol wedi'i gyfrifo fel a ganlyn:

- Swm o £59,220 ar gyfer grwpiau o 10 Aelod neu lai
- Y swm uchod ar gyfer grwpiau o dros 10 Aelod, ynghyd â swm ychwanegol o £24,235 ar gyfer pob 5 aelod ychwanegol (neu ran o hynny).

20.3.2 Rhaid i'r staff a gyflogir o dan y lwfans hwn fod wedi'u cynnwys yn un o'r Bandiau a ganlyn a rhaid iddynt fod yn ddarostyngedig i'r isafsymiau a'r uchafsymiau ac i'r Trefniadau Dros Dro amlinellir yn adran 20.3.3.

Band	Swyddi	Isafswm	Uchafswm
1	Rheolwr Swyddfa	£19,056	£27,092
2	Uwch Ysgrifenydd Uwch Weithiwr Achos Cynorthwy-ydd Ymchwil Swyddog y Wasg	£16,205	£23,978
3	Gweithiwr Achos Ysgrifennydd Iau	£14,630	£19,894
4	Uwch Ymchwilydd	£25,808	£31,629

20.3.3 Bydd y Swyddfa Ffioedd, gan weithredu ar ran y Llywydd yn cytuno ag arweinwyr y pleidiau ynghylch band cyflog pob aelod unigol o'r staff cymorth. Os bydd unrhyw unigolyn ar gyflog sy'n is na'r isafswm ar y raddfa, caiff ei g/chyflog ei godi i'r lefel honno. Os bydd unrhyw unigolyn ar gyflog uwch na'r uchafswm ar y raddfa, caiff ei g/chyflog ei ddiogelu nes y bydd yr uchafswm wedi codi'n uwch na'r cyflog sy'n daladwy.

20.3.4 Caiff y symiau yn adran 20.3.1 ac uchafsymiau ac isafsymiau y graddfeydd ym mharagraff 20.3.2. eu hadolygu ar 1 Ebrill 2007 ac ar yr un dyddiad bob blwyddyn yn unol â'r cynnydd yn y Mynegai Enillion Cyfartalog ar gyfer y mis Rhagfyr blaenorol.

20.4 Dewis 2

20.4.1 Yn ystod y flwyddyn yn dechrau 1 Ebrill 2006, gall grwp plaid hawlio lwfans i dalu costau cyflogau a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyflogwr cysylltiedig ar gyfer hyd at 4.0 o staff cyfwerth ag amser llawn. Ni chaiff mwy nag 1.0 staff cyfwerth ag amser llawn ddod o Fand 1 fel y'i diffinnir isod. Ni chaiff mwy na 3.0 o staff cyfwerth ag amser llawn ddod o Fand 2 a'r gweddill o Fand 3.

Band	Swyddi
1	Rheolwr Swyddfa
2	Uwch Ysgrifennydd Uwch Weithiwr Achos Cynorthwy-ydd Ymchwil Swyddog y Wasg
3	Gweithiwr Achos Ysgrifennydd Iau
4	Uwch Ymchwilydd

20.4.2 Caiff grŵp o 10 Aelod neu lai nad yw'n cael ei gynrychioli gan Aelod yn y Cabinet benodi hyd at 2.0 o staff cyfwerth ag amser llawn hefyd. Ni chaiff mwy nag 1.0 o staff cyfwerth ag amser llawn ddod o Fand 4 fel y'i diffinnir uchod. Ni chaiff mwy nag 1.0 o staff cyfwerth ag amser llawn ddod o Fand 2 a'r gweddill o Fand 3.

20.4.3 Mae gan grŵp o dros 10 o aelodau nad yw'n cael ei gynrychioli gan aelod yn y Cabinet hawl i'r staff a nodir ym mharagraff 19.4.2 ond am bob 5 aelod ychwanegol yn y grŵp (neu ran o hynny) gall benodi hyd at 1.0 o staff cyfwerth ag amser llawn. Ni chaiff mwy na 1.0 o staff cyfwerth ag amser llawn ddod o Fand 2 fel y'i diffinnir uchod a'r gweddill o Fand 3.

20.4.4 Dyma'r graddfeydd cyflog cyfwerth ag amser llawn ar gyfer y swyddi hyn:

BAND	Pwynt 1	Pwynt 2	Pwynt 3	Pwynt 4	Pwynt 5
1	£19,056	£20,808	£22,721	£24,810	£27,092
2	£16,205	£17,873	£19,712	£21,741	£23,978
3	£14,630	£15,798	£17,061	£18,422	£19,894
4	£25,808	£27,154	£28,571	£30,060	£31,629

- 20.4.5 Caiff y graddfeydd hyn eu hadolygu ar 1 Ebrill 2007 ac ar yr un dyddiad bob blwyddyn yn unol â'r cynnydd yn y Mynegai Enillion Cyfartalog ar gyfer y mis Rhagfyr blaenorol.
- 20.4.6 Bydd cyflogau aelodau unigol a'r staff cymorth unigol yn codi fesul pwynt ar 1 Ebrill bob blwyddyn nes y byddant yn cyrraedd pen uchaf y raddfa, yn amodol ar berfformiad boddhaol.
- 20.4.7 Bydd cyflog unrhyw aelod unigol o'r staff cymorth yn cael ei ddiogelu os oedd ei gyflog yn uwch na'r cyflog uchaf ar y raddfa ar 1 Ebrill 2005, nes y bydd y cyflog uchaf ar y raddfa'n codi'n uwch na'r cyflog sy'n daladwy. Bryd hynny, bydd yn cael y cyflog uchaf ar y raddfa.
- 20.4.8 Bydd staff cymorth newydd sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2006 yn dechrau ar waelod y band cyflog priodol oni bai fod rhesymau da sy'n cyfiawnhau cyflog dechreuol uwch. Gofynnir i Aelodau gyflwyno achos dros hynny i'r Swyddfa Ffioedd yn y lle cyntaf a chaiff unrhyw anghydfod ei gyfeirio at y Llywydd iddo ef benderfynu'n derfynol ar y mater os bydd angen.
- 20.4.9 Yn amodol ar berfformiad boddhaol, caiff staff newydd gynnydd yn eu cyflog ar ddyddiad eu penodiad bob blwyddyn.
- 20.4.10 Caiff grwpiau plaid hawlio swm ychwanegol o'r Lwfans Cyflogau Staff yn ystod y flwyddyn yn dechrau 1 Ebrill 2006 i dalu costau goramser, hyfforddiant, teithio, taliadau bonws etc. (gan gynnwys Cyfraniadau Yswiriant Gwladol y Cyflogwr ychwanegol mewn perthynas â'r taliadau hyn), prynu cyfarpar angenrheidiol a llogi cyfleusterau etc.
- 20.4.11 Dyma sut y caiff y swm ychwanegol ei gyfrifo:
- (a) bydd gan pob grŵp yr hawl i swm (y swm sylfaenol) na fydd yn fwy na £9,150 y flwyddyn;

(b) bydd pob grŵp nad yw'n cael ei gynrychioli gan aelod yn y Cabinet yn derbyn, ar ben y swm sylfaenol, swm ychwanegol wedi'i gyfrif fel a ganlyn:

- swm o £5,385 ar gyfer grwpiau o 10 aelod neu lai;
- y swm uchod ar gyfer grwpiau o dros 10 ynghyd â £2,203 ychwanegol am bob 5 aelod ychwanegol (neu ran o hynny).

20.4.12 Caiff y symiau yn adran 20.4.11 ac uchafsymiau ac isafsymiau y graddfeydd ym mharagraff 20.4.4. eu hadolygu ar 1 Ebrill 2007 ac ar yr un dyddiad bob blwyddyn yn unol â'r cynnydd yn y Mynegai Enillion Cyfartalog ar gyfer y mis Rhagfyr blaenorol.

20.5 Cymeradwyo'r gwariant

20.5.1 Rhaid cael cymeradwyaeth arweinydd y grŵp, neu'r Aelod Cynulliad y mae'r cyfrifoldeb wedi'i ddirprwyo iddo/i, cyn gwario arian o'r lwfans hwn.